



Grantiau ar gael ar gyfer busnesau garddwriaethol bach yng Nghymru

Datganiad i'r cyfryngau

Dyddiad: 20fed Tachwedd 2020 - I'w ryddhau ar unwaith

Gyda mwy a mwy o bobl bellach â diddordeb mewn cynhyrchu a thyfu bwyd, a gyda thyfu llysiâu gartref ar ei lefel uchaf erioed o ganlyniad i bandemig COVID-19, dyma amser gwych i fusnesau garddwriaethol bach ehangu eu mentrau.

Er mwyn helpu i dyfu busnesau garddwriaethol bach sy'n gweithredu yng Nghymru, mae [Synnwyr Bwyd Cymru](#) mewn partneriaeth gyda [Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol](#), yn dyfarnu hyd at chwe grant rhwng £ 2500 a £ 5000 i fusnesau bach heb ddim mwy na 5-hectar o dir cynhyrchu. Mae'r cynllun grant bellach ar agor a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, dydd Llun 30 Tachwedd 2020.

Dyma gyfle gwych i fusnesau garddwriaethol bach dderbyn grantiau cyfalaf bach fel rhan o [Pys Plŷs](#), rhaglen a ariennir gan Loteri Genedlaethol y DU i gynyddu defnydd llysiâu. Mae'r grant hwn yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan Synnwyr Bwyd Cymru mewn partneriaeth â Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru.

Bydd y cyllid hwn yn ymchwilio a threialu'r gwahaniaeth y gall buddsoddiadau cyfalaf bach eu gwneud i fusnesau garddwriaethol ar raddfa fach. Bydd grantiau rhwng £2500 a £5000 yn cael eu cynnig i nifer fach o ymgeiswyr yng Nghymru a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd incwm isel.

“Ers blynnyddoedd lawer, mae garddwriaeth, yn enwedig ar raddfa fach o gynhyrchu, wedi bod heb ddigon o adnoddau, gan nad yw cynhyrchwyr o dan 5 Hectar wedi bod yn gymwys i gael cymhorthdal. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallent ehangu gwerthiant a chyrrhaeddiad yn sylweddol pe bai buddsoddiad mewn seilwaith ar gael,” meddai Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru, sefydliad sy'n gweithio i ddylanwadu ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, gan sicrhau bod bwyd a ffermio cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus.

“Dyma gynllun hynod gyffrous a fydd yn archwilio'r effaith y gall buddsoddiadau cyfalaf bach eu cael ar y busnesau garddwriaethol hyn sy'n gweithredu ar raddfa lai, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chwmnïau ledled Cymru i fesur llwyddiant y cynllun,” atega.

Ychwanegodd Gary Mitchell, Rheolwr Cymru, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol: “Rydym yn gwybod bod cael bod allan yn yr awyr agored yn cynnig buddion enfawr i iechyd a lles corfforol a meddyliol a bod hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ar frig yr agenda yn y frwydr tymor-hir yn erbyn COVID-19. Gydag unigrwydd ac achosion o broblemau iechyd meddwl yn cynyddu, mae pwysigrwydd lleoedd cymunedol diogel yn yr awyr agored yn bwysicach nag erioed. Yn ogystal â hyn, mae tyfu cymunedol, lleol yn gwbl allweddol wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd gyda bioamrywiaeth ar frig yr agenda i lawer o bobl yn ein cymunedau.”

Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant llwyddiannus gwrdd ag ymchwilydd, cyn ac ar ôl y buddsoddiad i werthuso pa effaith y gall y buddsoddiad grant ei chael o ran cynhyrchu, gwerthu a chynaliadwyedd y sefydliad.

Cynlluniwyd y cynllun peilot hwn gyda rhanddeiliaid allweddol a bydd effaith gyffredinol y peilot yn cael ei gwerthuso a bydd adroddiad astudiaeth achos ysgrifenedig yn amlygu meysydd o arfer da, gyda'r canfyddiadau'n cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cymorth Busnes Garddwriaeth Bach, cliciwch [yma](#) neu gysylltwch â 02920 225942 / wales@farmgarden.org.uk

----- DIWEDD DATGANIAD I'R WASG -----

Nodiadau i'r Golygydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Meggie Rogers, Swyddog Cyfathrebu, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol:

meggie@farmgarden.org.uk / 02920 225942

NEU

Sian-Elin Davies, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Swynnwyr Bwyd Cymru :

sian-elin.davies@wales.nhs.uk / 07733 305018

Ynglŷn â Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol:

'Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol - Tyfu'n dda gyda'n gilydd'

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn elusen ledled y DU sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda'i gilydd. Maent yn:

- Eirioli ac ymgyrchu dros fwy o gydnabyddiaeth, cyllid a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur.
- Darparu cyngor arbenigol, cefnogaeth a chynllun aelodaeth am ddim i gefnogi cymunedau i dyfu mewn ffyrdd cynaliadwy.
- Dylunio a darparu rhaglenni hyfforddi arloesol sy'n grymuso ac yn galluogi cymunedau i ffynnu a thyfu.
- Creu llwybrau i'w haelodau gael mynediad at wasanaethau a gomisiynwyd a dangos eu bod yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel.

Noddwr: Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru

Llywydd: Arglwydd Curry o Kirkharle CBE

www.farmgarden.org.uk

Prif Swyddfa: The GreenHouse, Hereford Street, Bedminster, Bryste BS3 4NA

Rhif Cwmni: 2011023 ac Elusen (Cymru a Lloegr) Rhif: 294494, Elusen (Yr Alban) Rhif: SC039440

Ynglŷn â Synnwyr Bwyd Cymru

Mae **Synnwyr Bwyd Cymru** yn gweithio i greu system bwyd a ffermio sy'n dda i bobl ac yn dda i'r blaned. Rydym am ddylanwadu ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod bwyd a ffermio cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus.

I gyflawni hyn credwn y dydlid integrediddio'r amgylchedd; iechyd a lles; cyfiawnder cymdeithasol, a'r economi ym mhob agwedd o bolisi yng Nghymru. Credwn y gellir cyflawni'r dull "bwyd ym mhob polisi" trwy ymchwil, cydweithredu ar draws y sector ac annog gweithrediad dinasyddion a rhanddeiliaid fel rhan o "Mudiad Bwyd Da Cymru".

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gronfa o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac yn cael ei chynnal gan dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn defnyddio dull systemau o ymdrin â bwyd a ffermio ynghyd â chreu cysylltiadau gwaith cryf gyda sefydliadau cymdeithas gyhoeddus, breifat a sifil sy'n gweithredu ac yn torri ar draws y gofod bwyd yng Nghymru a'r DU.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cyflwyno nifer o raglenni ledled Cymru - llawer ohonynt fel rhan o bartneriaethau'r DU - gan gynnwys [Pys Plîs](#), [Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes](#) a [Sustainable Food Places](#).

Pys Plîs

Mae Pys Plîs yn fenter ledled y DU sy'n ymwneud â chael pobl i fwyta mwy o lysiau. Synnwyr Bwyd Cymru sy'n arwain gwaith Pys Plîs yng Nghymru.

Mae Pys Plîs yn fenter arloesol sy'n canolbwyntio'n benodol ar lysiau. Gyda'n lefelau o'n defnydd o lysiau yn dirywio, nod Pys Plîs yw dod â ffermwyr, manwerthwyr, tai bwyta, arlwywyr, proseswyr ac adrannau'r llywodraeth ynghyd â'r nod cyffredin o'i gwneud hi'n haws i bawb fwyta llysiau.

Nid ein hiechyd yn unig a fydd yn elwa ond gall yr amgylchedd a ffermwyr elwa o gynyddu'n defnydd o lysiau hefyd. Dangosodd adroddiad diweddar pe byddai pawb yn bwyta dogn ychwanegol o lysiau ac ychydig yn llai o gig byddem yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â diet y DU o 17%.

Nod Pys Plîs yw sicrhau ymrwymadau gan ddiwydiant a'r llywodraeth i wella argaeledd, derbynioldeb (gan gynnwys cyfleustra), fforddiadwyedd ac ansawdd y cynnig llysiau mewn siopau, ysgolion, bwytaï a thu hwnt, ac yn ei dro ysgogi mwy o ddefnydd llysiau ymhlith cyhoedd y DU, yn enwedig plant a'r rhai ar incwm isel.